

**Cofnodion Iechyd Cyhoeddus Cymru heb eu Cadarnhau
Cyfarfod Pwyllgor Sesiwn Gyhoeddus Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
23 Mehefin 2025 am 09:30, drwy Microsoft Teams**

Rhan A

Yn bresennol		
Nick Elliott	(NE)	Cadeirydd, Cyfarwyddwr Anweithredol
Huw David	(HD)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Clare Jenkins	(CJ)	Cyfarwyddwr Anweithredol ac Is-gadeirydd y Bwrdd
Yn Bresennol:		
Iain Bell	(IB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd (Ar gyfer Tracey Cooper fel Dirprwy Brif Weithredwr enwebedig)
Claire Birchall	(CB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Andrea Calise	(AC)	Rheolwr Contract, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Bethan Enoch	(BE)	Archwilio Cymru
Katrina Febry	(KF)	Archwilio Cymru
Ian Kent	(IK)	Pennaeth Dros Dro Adrodd a Rheoli Ariannol
Neil Stoodley	(NS)	Pennaeth Cyllid Dros Dro
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Kathryn Watts	(KW)	Archwilio Cymru
Angela Williams	(AW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gweithrediadau a Chyllid
Steve Wyndham	(SW)	Archwilio Cymru
Ymddiheuriadau		
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Tamsin Ramasut	(TR)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
Dechreuodd y cyfarfod am 09:30		

ACGC 1/2025.06.23	Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb
<p>Agorodd NE y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol, a nododd bod y cyfarfod wedi'i gynnal yn electronig ac yn 3.6 CQ2.</p> <p>Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb a oedd wedi dod i law.</p> <p>Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i sicrhau cywirdeb y cofnodion, a byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y byddai'r cofnodion wedi'u cytuno yn y cyfarfod nesaf ym mis Medi 2025.</p>	
ACGC 2/2025.06.23	Datganiadau o Fuddiant
<p>Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.</p>	
ACGC 3/2025.06.23	Adroddiadau Diwedd Blwyddyn / Datganiadau Ariannol a Llywodraethu Blynyddol
ACGC 3.1/2025.06.23	Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol, Barn Archwilio Mewnol Terfynol ac Adroddiad Blynyddol 2024/25
<p>Ystyriodd y Pwyllgor Farn y Pennaeth Archwilio Mewnol, Barn Derfynol Archwilio Mewnol ac Adroddiad Blynyddol 2024/25.</p> <p>Cyflwynodd PD yr Adroddiad Terfynol i'r Pwyllgor a nododd mai'r unig newid i'r Adroddiad ers ei gyflwyno ar ffurf drafft i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mai oedd codi sgôr sicrwydd y Ddyletswydd Gonestrwydd Archwilio Mewnol i Sylweddol.</p> <p>Ni chododd y Pwyllgor unrhyw sylwadau na chwestiynau.</p>	
ACGC 3.2/2025.06.23	Barn Flynyddol Archwilio Cymru (gan gynnwys ISA 260)
<p>Ystyriodd y Pwyllgor Farn Flynyddol Archwilio Cymru (gan gynnwys ISA 260).</p> <p>Cadarnhaodd SW fod yr Archwiliad wedi'i gwblhau. Dechreuodd KW drwy ddiolch i'r Tîm Cyllid yn lechyd Cyhoeddus Cymru am eu gwaith o gwblhau'r Archwiliad yn brydlon a nododd fod y defnydd o feddalwedd newydd, <i>inflow collaborate</i>, wedi gwneud y broses yn fwy effeithlon a symlach.</p> <p>Cadarnhaodd yr Adroddiad y byddai Archwilio Cymru yn cyhoeddi barn ddiamod ar y datganiadau ariannol. Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro. Roedd y camddatganiadau a ganfuwyd wedi'u cywiro a cheir manylion ohonynt yn Atodiad 2.</p> <p>Nodwyd y farn ddiamod yn Atodiad 3 ac roedd y Llythyr Cynrychiolaeth i'w lofnodi gan y Sefydliad yn Atodiad 4.</p> <p>Roedd Atodiad 5 yn cynnwys dau argymhelliad a nodwyd yn ystod yr Archwiliad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylid ffurfioli cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru o Benodiadau Cyfarwyddwyr Dros Dro yn ysgrifenedig. • Nodwyd nifer fach o wendidau rheoli TG. 	



Cadarnhaodd fod y rheolwyr wedi derbyn y canfyddiadau ac yn gweithio i gwblhau'r argymhellion o fewn yr amserlen benodedig.

Diolchodd y Tîm Cyllid i Archwilio Cymru am y gefnogaeth a gawsant yn ystod y broses Archwilio a chytunodd fod y feddalwedd newydd wedi gwella'r broses yn sylweddol.

Cynghorodd AW fod y Sefydliad wedi cydymffurfio'n llawn â gofynion Cylchlythyr Iechyd Cymru ynghylch penodiadau Cyfarwyddwyr Dros Dro gyda chymeradwyaeth lafar wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru ym mhob achos. Nododd hefyd fod TC wedi pwysleisio'r pwynt hwn wrth ystyried yr argymhellion. Derbyniodd y rheolwyr yr argymhelliad i ddarparu llwybr archwilio clir yn y dyfodol gyda chymeradwyaeth ysgrifenedig. Cadarnhaodd Archwilio Cymru fod argymhellion tebyg wedi'u cyhoeddi i Sefydliadau GIG eraill.

Diolchodd SW i Reolwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru am ymatebion prydlon yn ystod y broses Archwilio a sicrhaodd y gellid cynnwys Camau Gweithredu ac Argymhellion yn yr Adroddiad eleni. Hysbysodd y Pwyllgor fod cyfarfod wedi'i drefnu ym mis Gorffennaf rhwng Archwilio Cymru a'r tîm Rheoli yn Iechyd Cyhoeddus Cymru i fyfyrto ar y broses Archwilio eleni. Diolchodd eto i'r Tîm Cyllid am eu cymorth a'u cefnogaeth.

Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai'r ddau Argymhelliad Archwilio yn cael eu hychwanegu at y Traciwr Argymhellion Archwilio yn y ffordd arferol a mynegodd y Pwyllgor ei ddiolch i'r Tîm Cyllid am eu gwaith.

Ni chododd y Pwyllgor unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach.

ACGC 3.3/2025.06.23 | Datganiad Ariannol Blynnyddol a Chyfrifon Drafft 2024/25

Bu'r Pwyllgor yn **ystyried** Datganiad Blynnyddol a Chyfrifon Drafft 2024/25.

Atgoffodd AW y Pwyllgor fod y Cyfrifon Drafft wedi'u hadolygu yng nghyfarfod mis Mai a diolchodd i'r Tîm Cyllid ac Archwilio Cymru am eu gwaith wrth baratoi'r cyfrifon.

Ni chododd y Pwyllgor unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach.

ACGC 3.4/2025.06.23 | Adroddiad Atebolrwydd Drafft 2024/25

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Atebolrwydd Drafft 2024/25.

Hysbysodd PV y Pwyllgor, yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 8 Mai, fod yr Adroddiad Atebolrwydd Drafft wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w adolygu. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch yr ymateb o ran amseriad cyfarfodydd y Pwyllgor yn argymhellion Adroddiad yr Asesiad Strwythuredig 2023 a thynnodd sylw'r Pwyllgor at ychwanegiad o baragraff ar dudalen 152. Cafodd yr ychwanegiad hwn ei gymeradwyo wedi hynny gan John Evans yn Llywodraeth Cymru.

Roedd yna hefyd rai newidiadau bach i ddata presenoldeb y Pwyllgor.

Ni chododd y Pwyllgor unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach.

ACGC 3.5/2025.06.23 | I'w Hargymell i'r Bwrdd

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Cymryd **sicrwydd** gan Farn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2024/25 (Eitem 3.1)
- **Argymell** y Cyfrifon Ariannol a Barn Flynyddol Archwilio Cymru (ISA260) i'r Bwrdd eu cymeradwyo. (Eitemau 3.2 a 3.3)
- **Argymell** Adroddiad Atebolrwydd 2024/25 i'w gymeradwyo gan y Bwrdd. (Eitem 3.4)
- **Nodwyd**, ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd, y bydd y dogfennau'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Mehefin 2025.

ACGC 4/2025.06.23

I'w nodi

ACGC 4.1/2025.06.23

Perfformiad a Gwelliant y GIG: Cynllun Gwaith Archwilio Mewnol 2025/26

Derbyniodd a nododd y Pwyllgor y Perfformiad a Gwelliant GIG: Cynllun Gwaith Archwilio Mewnol 2025/26

ACGC 11/2025.06.23

Camau dod â'r cyfarfod i ben

Gofynnwyd i'r Pwyllgor roi adborth ar y cyfarfod i LB.

Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor: 30 Medi 2025

Unrhyw Fater Arall: Dim

Diolchodd NE i bawb am eu cyfraniadau, a daeth â'r cyfarfod i ben.

Daeth y cyfarfod i ben am 09:47

HEB EU CADARNHAU